Cymraeg Mewn Ymarfer Proffesiynol 1
ECAD4020-C
2025-26

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 10:
# Berfau amhersonol
20.11.2025

n.evans@pcydds.ac.uk

Peniarth .cymru
RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# Allwedd:


Drilio


Ymarfer ar lafar (yn unigol)


Tasg wrando


Gwaith pâr


Grŵp o dri


Gwaith grŵp


Amser canu


Gwaith ar y byrddau gwyn


Tasg ysgrifennu


Tasg ddarllen


Help llaw


Tystiolaeth i'r Portffolio

# Bocs cofrestru…






















## Wyt ti’n hoffi …?





# Mae hi'n amser adolygu …



Berfau cryno







Cardiau dilyniannu



# Beth ydy'r frawddeg?

nhw + bwyta ✓ + y bwyd i gyd.

**Bwyton nhw y bwyd i gyd.**

# Beth ydy'r frawddeg?

nhw + bwyta ✗ + y bwyd i gyd.

**Fwyton nhw ddim y bwyd i gyd.**

# Beth ydy goddrych a gwrthrych?

**Goddrych -** yr un sy'n gwneud y weithred. (*Subject)*

**Gwrthrych -** yr un neu'r peth sy'n dioddef y weithred. (*Object)*

**Rheolau treiglo:**
Dydy'r goddrych (yr hyn sy'n ateb y cwestiwn Pwy?) ddim yn treiglo e.e.

Rhedodd disgybl ar draws y cae chwarae.

Mae gwrthrych berf gryno (yr hyn sy'n ateb y cwestiwn Beth?/Pwy? yn treiglo'n feddal e.e.

Cwblhaodd <u>**w**</u>aith cartref safonol.

# Cywir neu anghywir?

Gwrandewch ar y brawddegau canlynol ac ysgrifennwch cywir neu anghywir ar eich byrddau gwyn.



1. Prynodd crys newydd ar gyfer y gêm rygbi.

2. Enillodd dwy ohonyn nhw y ras.

3. Ysgrifennodd ddarn o waith creadigol.

4. Tynnais llun o’r planedau a’r gofod.

5. Canon nhw gân hyfryd yn y gwasanaeth.

# Cywir neu anghywir?

Gwrandewch ar y brawddegau canlynol ac ysgrifennwch cywir neu anghywir ar eich byrddau gwyn.



1. Prynodd crys newydd ar gyfer y gêm rygbi. **ANGHYWIR**
   Prynodd **g**rys newydd ar gyfer y gêm rygbi.

2. Enillodd dwy ohonyn nhw y ras. **CYWIR**

3. Ysgrifennodd ddarn o waith creadigol. **CYWIR**
   Ysgrifennodd **dd**arn o waith creadigol.

4. Tynnais llun o'r planedau a'r gofod. **ANGHYWIR**
   Tynnais **l**un o'r planedau a'r gofod.

5. Canon nhw gân hyfryd yn y gwasanaeth. **CYWIR**
   Canon nhw **g**ân hyfryd yn y gwasanaeth.

# Yr amser amherffaith

| Cwestiwn | Ateb cadarnhaol | Ateb negyddol |
|---|---|---|
| Oeddwn i'n…? | Oeddet, roeddet ti'n<br>Oeddech, roeddech chi'n | Nac oeddet, doeddet ti ddim yn<br>Nac oeddech, doeddech chi ddim yn |
| Oeddet ti'n…? | Oeddwn, roeddwn i'n | Nac oeddwn, doeddwn i ddim yn |
| Oedd e / o/ hi'n…? | Oedd, roedd e/ o/ hi'n | Nac oedd, doedd e/ o/ hi ddim yn |
| Oedd Siôn yn….? | Oedd, roedd Siôn yn | Nac oedd, doedd Siôn ddim yn |
| Oedd y plant yn…? | Oedd, roedd y plant yn | Nac oedd, doedd y plant ddim yn |
| Oedden ni'n…? | Oedden, roedden ni'n<br>Oeddech, roeddech chi'n | Nac oedden, doedden ni ddim yn<br>Nac oeddech, doeddech chi ddim |
| Oeddech chi'n…? | Oeddwn, roeddwn i'n<br>Oedden, roedden ni'n | Nac oeddech, doeddech chi ddim<br>Nac oedden, doedden ni ddim yn |
| Oedden nhw'n…? | Oedden, roedden ni'n | Nac oedden, doedden ni ddim yn |

# Adolygu'r amherffaith:  Beth ydy'r cwestiwn?



1. Nac oedd, doedd Sara ddim yn cerdded i'r ysgol.

   Oedd Sara yn cerdded i'r ysgol?

2. Oedden, roedden ni'n chwarae, 'Faint o'r gloch ydy hi Mr Blaidd?'

   Oeddech chi'n chwarae, 'Faint o'r gloch ydy hi Mr Blaidd?'?

3. Nac oeddwn, doeddwn i ddim yn canu yn y gwasanaeth bob dydd.

   Oeddet ti'n canu yn y gwasanaeth bob dydd?

4. Oeddwn, roeddwn i'n arfer darllen llyfrau T.Llew Jones.

   Oeddet ti'n arfer darllen llyfrau T.Llew Jones?

5. Oeddet, roeddet ti'n ddisgybl tawel yn yr ysgol.

   Oeddwn i'n ddisgybl tawel yn yr ysgol?




# Cymorth ychwanegol i chi (ac yn y dosbarth)...




















# Ysgrifennu academaidd- Adnoddau defnyddiol:



Peniarth
.cymru









# Blas o’r cynnwys:

Peniarth .cymru




**I agor …**

Y farn gyffredinol heddiw yw bod …

Wrth ystyried y pwnc hwn, gellid …

Y pwynt cyntaf y dylid ymdrin ag ef yw …

Un o’r agweddau pwysicaf
ar y mater hwn yw …

Gadewch i ni ddechrau drwy archwilio …

Pwynt canolog i’w ystyried wrth
drin a thrafod X yw …

Dywedir yn aml fod …

Mae’n ffaith wybyddus fod …

Wrth ystyried y gosodiad uchod
yn ofalus, gwelir bod nifer o
faterion allweddol yn codi …

**Strwythuro**

Yn gyntaf, yn ail, yn drydydd, yn olaf …

Yn y lle cyntaf …

Awgryma’r ddadl gyntaf fod … Mae’r ail
ddadl fodd bynnag yn awgrymu mai …

I ddechrau …

Wedyn rhaid ystyried …

Mae o leiaf dri phwynt pwysig i’w
hystyried yn deillio o’r gosodiad uchod …

**Symud i bwynt newydd**

Yr ail ystyriaeth yw …

Nesaf …

Yn dilyn …

# Blas o'r cynnwys:




| Iaith ac Ymadroddion ar gyfer Mynegi Barn | | |
|---|---|---|
| A dweud y gwir | Anghytunaf | Beth bynnag |
| Byddai'n braf petai... | Byddai'n dda petai... | Credaf |
| Cytunaf | Dadl arall | Does dim amheuaeth fod... |
| Does dim dwywaith nad... | Does dim rhyfedd mai... | Dylid cofio mai... |
| Er hyn... | Felly... | Fodd bynnag |
| Gwaetha'r modd... | Gŵyr pawb... | Heb os nac oni bai |
| Heb unrhyw amheuaeth | Hoffwn | I gloi... |
| O ganlyniad, teimlaf... | Onid yw... | Mae lle i gredu... |
| Mae'n amlwg y bydd angen... | Mae'n amlwg fod angen... | Mae'n anhygoel fod... |
| Mae'n anodd credu... | Mae'n bwysig iawn nodi... | Mae'n hen bryd |
| Mae'n rhaid cydnabod... | Meddyliaf | Pwy all beidio â... |
| Pwysig yw nodi... | Pwynt arall | Rwy'n argyhoeddedig... |
| Rwyf o'r farn... | Rwy'n rhyfeddu | Rydw i'n meddwl |
| Rhaid cofio | Teimlaf | Wedi'r cyfan... |
| Wrth reswm... | Y gwir cas yw... | Y gwirionedd yw mai... |
| Yn ail | Yn anffodus... | Yn bendant |
| Yn bersonol... | Yn ddi-os, fe fydd... | Yn drydydd |
| Yn fy marn i... | Yn gyntaf | Yn ôl rhai |
| Yn ôl pob tebyg | Yn sicr | Yn wir |
| Yr hyn sy'n drist yw bod... | Yr hyn sy'n fy ngwylltio yw... | |



# Beth ydy person?





Wel, ie, ond hefyd …




…gall yr holl bethau yma fod yn ‘**berson**’ y ferf hefyd. Edrychwch…




Wrth drafod **berfau**, rydyn ni'n defnyddio'r term 'person' i gyfeirio at **unrhyw beth** sy'n **gwneud y ferf**:

Mae'r fuwch yn cnoi cil …

Felly 'person' y ferf ydy'r…



Diferodd y tap drwy'r nos …

Felly 'person' y ferf ydy'r…



Dywed y llyfrau hanes yr holl ganrifoedd …

Felly ‘person’ y ferf ydy’r…



Gall y cyfrifiadur roi llawer o wybodaeth i ni …

Felly ‘person’ y ferf ydy’r…



# Felly, beth ydy ‘Yr Amhersonol’?



# Yr Amhersonol ...

… ydy **pan nad oes** modd dweud yn union pwy / beth ydy'r person! Hynny yw, mae rhywbeth yn cael ei wneud ond dydyn ni **ddim** yn gwybod **pwy** sy'n ei wneud.

Mae'r **ffurfiau amhersonol** yn cael eu defnyddio mewn iaith **ffurfiol** ysgrifenedig e.e. llythyron ffurfiol, cofnodion cyfarfodydd ac **aseiniadau academaidd**.

# Yr Amhersonol …

Driliwch y patrymau canlynol gan ddefnyddio lleisiau gwahanol.

| **Presennol** | **-ir** |
|---|---|
| | Dywed**ir** |
| | Gwel**ir** |
| | Ysgrifenn**ir** |

| **Gorffennol** | **-wyd** |
|---|---|
| | Dywed**wyd** |
| | Gwel**wyd** |
| | Ysgrifenn**wyd** |

# Yr Amhersonol …

| **Amherffaith** | **-id** |
|---|---|
| | Edrych**id** |
| | Gwel**id** |
| | Rhodd**id** |

| **Gorchmynnol** | **-er** |
|---|---|
| | Sylw**er** |
| | Gwel**er** |
| | Darllen**er** |

# Dim treiglo …

**Nid** oes angen treiglo gwrthrych berfau **amhersonol**, e.e.

| | |
|---|---|
| Cyhoedd**wyd dyddiad** y cyfarfod nesaf. | **(y gorffennol)** |
| Cynhali**wyd cyfarfod** ar ddiwedd y dydd. | **(y gorffennol)** |
| Marci**wyd gwaith** y plant. | **(y gorffennol)** |
| Dysg**wyd gwersi** yn dilyn yr arsylwad. | **(y gorffennol)** |
| Gwne**ir gweithgareddau** allgyrsiol yn rheolaidd. | **(y presennol)** |

# Does dim goddrych i ferf amhersonol.

**Dydyn ni ddim** yn gwybod pwy na beth sy'n gwneud y weithred.

Os ydyn ni eisiau dweud pwy sy'n gwneud y weithred, mae rhaid defnyddio berf amhersonol a '**gan**' e.e.

Cynhali**wyd** y cyfarfod **gan** y pwyllgor.

Ysgrifenn**wyd** y gerdd **gan** y bardd.

Agor**wyd** y cyfarfod **gan** y prifathro.

# Brawddegau negyddol

Rydyn ni'n gosod **ni** o flaen y ffurf amhersonol er mwyn cyfleu'r negyddol ac mae angen cofio **treiglo'n llaes** neu'n **feddal**.

**P T C** yn treiglo'n **llaes**.

**B D G Ll M Rh** yn treiglo'n **feddal**.

# Y tabl treiglo

| Llythyren cyn treiglo | Treiglad meddal | Treiglad trwynol | Treiglad llaes |
|---|---|---|---|
| p | b | mh | ph |
| t | d | nh | th |
| c | g | ngh | ch |
| b | f | m | |
| d | dd | n | |
| g | - | ng | |
| ll | l | | |
| m | f | | |
| rh | r | | |

# Y treiglad llaes

| p | t | c |
|---|---|---|
| ↓ | ↓ | ↓ |
| ph | th | ch |

Enghraifft:
Ni **ch**yhoeddir y llyfr tan ddiwedd y flwyddyn.

# Y treiglad meddal

| p | t | c | b | d | g | ll | m | rh |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ |
| b | d | g | f | dd | - | l | f | r |

Enghraifft:
Ni **l**wyddwyd i orffen y gwaith mewn pryd.

## Enghreifftiau:

**Dywedir** bod Gethin yn athro gwych.

Yn y llyfr, **disgrifir** bywyd person ifanc.

amser presennol

**Agorwyd** y cyfarfod i bawb.

**Ailgodwyd** yr adeilad ym 1999.

y gorffennol

**Sylwer** ar yr arwyddion.

**Ni ddylier** ysmygu yn yr ystafell hon.

y gorchmynnol

# Tasg 1:
## Defnyddiwch yr amhersonol yn y brawddegau canlynol:



1. Mae’r llyfr wedi cael ei **ysgrifennu** yn Saesneg.
2. Mae car yn cael ei **weld**.
3. Nid yw ysmygu yn cael ei **ganiatáu** yn yr ysgol.
4. Cafodd yr ysgol ei **hadeiladu** yn 1989.
5. Cafodd dwy gôl eu **sgorio**.
6. Mae’r gwersi yn cael ei **dysgu** yn y Gymraeg.

**Ystyriwch: Pa amser o’r ferf?**

# Atebion:

1. Ysgrifenn**wyd** y llyfr yn Saesneg.
2. Gwel**ir** car.
3. **Ni ch**aniateir ysmygu yn yr ysgol.
4. Adeilad**wyd** yr ysgol yn 1989.
5. Sgori**wyd** dwy gôl.
6. Dysg**ir** y gwersi yn y Gymraeg.

# Tasg 2:

## Pa 3 brawddeg sy’n gywir?



1. Defnyddir yr awdur nifer o esiamplau.
2. Dangosir yr ymchwil sawl ffaith ddiddorol
3. Dywed y bardd fod y byd ar ben.
4. Esbonir y llyfr beth yw pwysigrwydd ailgylchu.
5. Esbonia’r llyfr beth yw pwysigrwydd ailgylchu.
6. Yn y traethawd trafodir pwysigrwydd ieithoedd lleiafrifol.

# Atebion:

## Pa 3 brawddeg sy'n gywir?

1. Defnyddir yr awdur nifer o esiamplau.
2. Dangosir yr ymchwil sawl ffaith ddiddorol
3. **Dywed y bardd fod y byd ar ben.**
4. Esbonir y llyfr beth yw pwysigrwydd ailgylchu.
5. **Esbonia'r llyfr beth yw pwysigrwydd ailgylchu.**
6. **Yn y traethawd trafodir pwysigrwydd ieithoedd lleiafrifol.**

# Tasg 3:



**Mewn parau, cywirwch y brawddegau canlynol:**

1. Penderfynwyd y dosbarth eu bod am wneud arddangosfa.
2. I orffen y thema cafwyd weithdy.
3. Cafwyd gyflwyniad clir.
4. Cyflwynwyd Llyr waith da.
5. Cyfrannir Mared at drafodaethau yn gyson.
6. Welir bod cynnydd mawr yn y gwaith.
7. Weler bod Iestyn wedi gwella.

# Atebion:

1. ~~Penderfynwyd~~ **Penderfynodd** y dosbarth eu bod am wneud arddangosfa.
2. I orffen y thema cafwyd **g**weithdy.
3. Cafwyd ~~g~~**c**yflwyniad clir.
4. ~~Cyflwynwyd~~ **Cyflwynodd** Llyr waith da (neu: **Cyflwynwyd gwaith da gan Llyr.**)
5. ~~Cyfrannir~~ **Cyfranna** Mared at drafodaethau yn gyson.
6. **G**welir bod cynnydd mawr yn y gwaith.
7. **G**weler bod Iestyn wedi gwella. (neu **Gwelir**)

# Cywir neu Anghywir?







**<u>Cyfarwyddiadau i’r tiwtor:</u>**

1. Rhannwch y dosbarth yn dimoedd o dri.
2. Bydd angen i un o bob grŵp ysgrifennu eu hateb ar y byrddau gwyn bach.
3. Bydd angen dangos sleid 33- 38 ar y bwrdd gwyn.
4. Gwaeddwch cywir neu anghywir?
5. Bydd pawb sy’n nodi’r ateb cywir yn cael marc ar gyfer eu grŵp.
6. Mae cyfleoedd i gael marciau ychwanegol pan fydd y grŵp wedi ysgrifennu’r frawddeg yn gywir.

# Cywir neu Anghywir?



Sonir yr awdur yn ei erthygl…

Son**ia’r** awdur yn ei erthygl…

# Cywir neu Anghywir?



Defnyddia'r actorion Gymraeg graenus.

# Cywir neu Anghywir?



Cyhoeddwyd y gyfrol ym mis Hydref.

# Cywir neu Anghywir?



Dywedwyd yr Athro Donaldson bod llythrennedd yn bwysig.

Dywed**<u>odd</u>** yr Athro Donaldson bod llythrennedd yn bwysig.

# Cywir neu Anghywir?



Awgryma'r awdur mai diffyg cyfathrebu oedd y broblem.



# Cywir neu Anghywir?



Cafwyd y myfyrwyr anhawster gyda'r dasg.



Caf**<u>odd</u>** y myfyrwyr anhawster gyda'r dasg.

# Eich tro chi …



**Dywedir bod ….**

# Eich tro chi …



## Gwelwyd ….

# Eich tro chi …



**Astudiwyd ….**

# Rho i mi bump…



Trafodwch a meddyliwch am 5 brawddeg addas yn cynnwys berfau amhersonol y gallech chi eu defnyddio mewn aseiniad academaidd.

Teimlir...

Nodir...

Esboniwyd...

Rhannwyd...

Credir...

Dywedwyd...



Bwriedir...

Cyflwynwyd...

Gwelwyd...

# Darllenwch yr erthygl a chwiliwch am ....

| | |
|---|---|
| Berf gwmpasog amser gorffennol | |
| Berf gryno amser gorffennol | |
| Berf amser presennol | |
| Berf amhersonol | |



## YSGOL TALGARREG

Ar drothwy blwyddyn academaidd newydd, mae'n gyfle i edrych 'nôl dros y flwyddyn ddiwethaf ac, wel, am flwyddyn! Yn wir, mae'r llwyddiannau yn rhy niferus i'w rhestru. Mae Ysgol Talgarreg wedi cael ei rhoi yn gadarn ar y map eleni eto ac mae'r diolch i'n disgyblion, staff, rhieni, llywodraethwyr a ffrindiau'r ysgol am y gwaith caled, y cydweithio a'r gefnogaeth barhaus. Y cydweithio hyn sy'n sicrhau bod ein disgyblion wedi cael llu o brofiadau cyfoethog yn ystod y flwyddyn er mwyn datblygu mewn hyder a llwyddo o fewn y gwahanol feysydd.

Ers ein hadroddiad diwethaf, mi fu'r Ysgol yn brysur ym mis Gorffennaf wrth i ni gydweithio ag Adran Bentre' Talgarreg i gynnal Gŵyl Talgarreg. Cafwyd diwrnod hwylus, llawn sbort a sbri yn y carnifal, mabolgampau, ras Siôn Cwilt a'r rownderi. Llongyfarchiadau i Gwenlli Ioan am ennill prif bencampwriaeth y Carnifal ac i Gwydion Dafis am ennill ras Siôn Cwilt. Ewch i Cwilt360 i weld yr adroddiad llawn a'r lluniau i gyd.



Gwenlli Ioan, pencampwr y Carnifal, gyda'r Llywydd, Bethan Sturrock



Gwydion Dafis, enillydd Ras Siôn Cwilt, gyda'r Llywydd, Bethan Sturrock

Cafwyd noson hyfryd ym mhrom Cynradd Ceredigion lle y gwelwyd disgyblion blwyddyn 6, y Parti Unsain, a Neli'n perfformio ar lwyfan y Neuadd Fawr yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Bu'r disgyblion hefyd ar lwyfan Ysgol Gyfun Aberaeron yng nghyngerdd elusennol Ysgolion Cynradd Ardal Aberaeron, a drefnwyd gan Glwb Rotari Bae Ceredigion.

Yn ystod mis Gorffennaf, daeth y Nyrs Ysgol i roi gwers 'Tyfu Fyny' i Bl. 5 a 6, a chafwyd ymweliad Diogelwch ar y Ffyrdd gan yr heddlu i Bl. 1, 2 a 3. Mynychodd disgyblion Bl. 5 a 6 ddiwrnodau pontio wrth iddynt baratoi i ddechrau ar antur nesaf bywyd yn ysgolion Bro Teifi, Aberaeron ac Emlyn. Hefyd, cynhaliwyd Noson Agored lle cafodd y plant y cyfle i rannu eu gwaith gyda'u rhieni.

Fel rhan o'r hwyl diwedd tymor, cafodd Dosbarth Dewi ddiwrnod Môr-ladron i gyd-fynd â thema'r tymor – y Moroedd Mawr! Diolch i blant Cylch Meithrin Talgarreg am ymuno yn y sbort. Cafodd dosbarth Sarnicol (Bl. 3-6) eu traddodiad blynyddol o noson Cysgu dan y Sêr, ac aeth yr ysgol gyfan ar wibdaith yr haf i Fferm Ffoli – joio!

Yn ystod gwyliau'r haf, mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn ymgymryd â'u diddordebau allgyrsiol. Hoffwn longyfarch Efan ar ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth canu unigol C.Ff.I. Cymru yn y Sioe Frenhinol, gan helpu Ceredigion i ddod i'r brig ar ddiwedd y cystadlu. Llongyfarchiadau hefyd i Martha ar ennill y gystadleuaeth coginio brownies yn y Sioe Frenhinol, ac i'r holl blant am eu llwyddiannau ym mhebyll ac ar gaeau sioeau lleol yr haf.

Mae ein hysgol fach yn mynd o nerth i nerth a'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un lewyrchus dros ben yn ei hanes. Os hoffech chi gyfrannu at barhad y llwyddiant hynny, beth am wirfoddoli i helpu plant Ysgol Talgarreg? Mae yna gyfleoedd i ddod i wrando ar y plant yn darllen neu i oruchwylio yn ystod y bore. Os am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Brifathrawes, Bethan Morgan-Jenkins, ar 01545 590 683.

Edrychwn ymlaen at y dyfodol yn llawn hyder ac at ddathlu pen-blwydd Ysgol Talgarreg yn 150 oed yn 2027. Hir oes i Ysgol Talgarreg!



Pob lwc i ddisgyblion blwyddyn 6



Martha a'i brownies buddugol yn siarad â Nia Roberts ar S4C o'r Sioe Frenhinol

# Eich tro chi

Ysgrifennwch adroddiad i'r papur bro lleol yn sôn am y digwyddiad canlynol.
Cofiwch ddefnyddio berfau amhersonol.

| | |
|---|---|
| Beth? | Taith gerdded noddedig |
| Pryd? | 3ydd o Hydref |
| Pwy? | Holl blant a staff yr ysgol |
| Pam? | Codi arian at elusen Plant Mewn Angen |
| Elw? | £925.00 |
| Ble? | O'r ysgol- 5 milltir o amgylch yr ardal |
| Sut? | Mewn gwisg ffansi |
| Unrhyw fanylion pellach | Picnic ar lan y llyn |

# Munud i feddwl ...

Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?



Help llaw



Gwaith pâr / llafar



Drilio



Tasg ysgrifennu



Grŵp o dri